Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

GWARCHOD DATA

DOGFEN BOLISI

Mawrth 2006

Fersiwn 0.1

1 Cyflwyniad

Mae Deddf Gwarchod Data 1998 yn gosod cyfrifoldebau cyfreithiol ar gyrff sy'n casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol ac yn rhoi hawliau mynediad penodol i unigolion. Mae'r ddeddf yn cwmpasu gwybodaeth sy'n drefnedig, gan gynnwys data a brosesir gan gyfrifiaduron a gwybodaeth a gofnodir fel rhan o system ffeilio berthnasol. Diwygiwyd y ddeddf gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i gynnwys pob gwybodaeth bersonol pa un a brosesir hi'n awtomatig neu fel rhan o drefn ffeilio berthnasol. Mae gofynion caethach yn y ddeddf mewn perthynas â phrosesu data personol sensitif. Gellir dal gwybodaeth mewn unrhyw fformat e.e. systemau cyfrifiadurol, cofnodion papur, TCC. Diffinnir gwybodaeth bersonol, data personol sensitif, prosesu a system ffeilio berthnasol yn Atodiad A.

Wrth gyflawni ei fusnes, mae gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gasglu a defnyddio mathau penodol o wybodaeth am bobl megis gweithwyr, cleientiaid, disgyblion ysgol, cwsmeriaid a chyflenwyr ac mae'n destun y ddeddf felly. Mae'r ddogfen hon yn gosod allan fwriadau'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau dan y ddeddf a'r trefniadau sydd ganddo i gydymffurfio â hi.

2 Cyfrifoldeb am y ddeddf

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â'r ddeddf. Mae'r Prif Swyddog, Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant yn gyfrifol am gydymffurfiad y Cyngor â'r ddeddf, gyda chmorth yr archifydd/rheolwr cofnodion. Mae swyddog cyswllt gwarchod data ym mhob un o adrannau'r Cyngor. Mae prif swyddogion yn gyfrifol am gydymffurfiad y ddeddf yn eu hadrannau nhw. Mae'r Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth yn rhoi cyngor cyfreithiol am faterion gwarchod data i'r Cyngor.

3 Cadw at wyth egwyddor y ddeddf

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol yn unol ag wyth egwyddor y ddeddf sy'n mynnu'r canlynol:

1. Prosesir data personol yn deg a chyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys cadw at o leiaf un o'r amodau a ddisgrifir yn Atodiad 2 o'r ddeddf (ac Atodiad 3 mewn perthynas â data personol sensitif).
2. Ceir data personol at un pwrpas penodol a chyfreithiol neu fwy a ni fydd yn cael ei brosesu ymhellach mewn unrhyw ffordd sy'n anghyson â'r pwrpas neu'r pwrpasau hynny.
3. Dylai data personol a gedwir at unrhyw bwrpas fod yn ddigonol, yn berthnasol ac ni ddylai fod yn ormodol o ran pwrpas neu bwrpasau ei brosesu. Bydd y Cyngor yn casglu a phrosesu y wybodaeth briodol sydd ei hangen i gyflawni anghenion gweithredol neu i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol.
4. Bydd data personol yn gywir a, lle'n briodol, bydd yn cael ei ddiweddaru.
5. Ni chedwir data personol am fwy o amser na'r gofyn.
6. Prosesir data personol yn unol â hawliau'r rhai sy'n destun y data dan y ddeddf.

7 Cymerir mesurau technegol a chyfundrefnol priodol yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colli, difrodi neu ddinistrio data personol yn ddamweiniol.

8 Ni throsglwyddir data personol i wlad tu allan i ardal economaidd Ewrop oni bai bod y wlad honno'n sicrhau lefel ddigonol o ddiogelwch i hawliau a rhyddid y rhai sy'n destun y data wrth brosesu data personol.

Bydd y Cyngor yn:

- sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant a chyfarwyddyd er mwyn iddynt ddeall eu bod yn gytundebol gyfrifol am gydymffurfio â'r gyfraith ac yn gwybod sut i brosesu gwybodaeth yn unol â'r wyth egwyddor
- sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â'r wyth egwyddor
- sefydlu mesurau technegol a chyfundrefnol priodol i ddiogelu gwybodaeth bersonol
- sicrhau yr hysbysir unigolion o'r pwrpas y defnyddir eu data ac y ceir eu caniatâd am hyn os yw hyn yn ofynnol dan y ddeddf

4 Hawliau unigol

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn sicrhau y gall unigolion weithredu'r hawliau a ddisgrifir yn y ddeddf, gan gynnwys hawl i fynediad i wybodaeth bersonol; yr hawl i atal prosesu gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau; gan gynnwys at ddibenion marchnata uniongyrchol; a'r hawl i gywiro, atal, dileu neu ddinistrio gwybodaeth anghywir.

4.1 Mynediad i Unigolion

4.1.1 Mae adran 7 y ddeddf yn darparu hawl i unigolion gael y wybodaeth ganlynol gan reolwyr y data (y rhai sy'n gyfrifol am gasglu'r wybodaeth):

- a ydynt yn prosesu gwybodaeth amdanynt (y rhai sy'n destun y data)
- disgrifiad o'r wybodaeth a brosesir
- i bwy y datgelir y wybodaeth
- cael copïau o'r wybodaeth mewn ffurf y maent yn ei deall

4.1.2 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu'r wybodaeth hon os derbynia gais ysgrifenedig ac os yw'r ymgeisydd yn rhoi digon o wybodaeth i alluogi'r Cyngor leoli'r wybodaeth. Bydd y sawl sy'n gwneud yr ymholiad yn gorfod talu £10 ymlaen llaw. Bydd y Cyngor yn ymateb i'r ceisiadau hyn o fewn 40 diwrnod calendr o dderbyn cais. Gellir codi taliadau ychwanegol am chwilio am wybodaeth anstrwythuredig (sef gwybodaeth nad yw ar gyfrifiadur neu nad yw'n rhan o strwythur ffeilio berthnasol) pe byddai chwilio am y wybodaeth yn cymryd mwy na 3 diwrnod.

4.1.3 Bydd y Cyngor yn darparu'r wybodaeth mewn fformat barhaol y mae'r ymgeisydd yn ei deall oni bai y byddai gwneud hyn yn ymdrech ormodol neu os yw'r ymgeisydd yn cytuno fel arall. Os mai dyma'r achos, bydd y Cyngor yn trefnu bod yr ymgeisydd yn archwilio'r cofnodion.

4.1.4 Gellir gwrthod datgelu gwybodaeth bersonol os daw dan unrhyw un o'r eithriadau a ddisgrifir yn y Ddeddf Gwarchod Data a deddfwriaeth eilaidd. Awdurdodir Panel Eithriadau'r Cyngor i benderfynu a ddylid gwrthod datgelu

gwybodaeth yn unol â'r eithriadau a geir yn y ddeddf ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r panel hwn yn cynnwys y Prif Swyddog Hamdden, Llyfrgelloedd a Diwylliant, y Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth, y Prif Gyfreithiwr (Corfforedig) a'r Swyddog Diwylliant/Treftadaeth. Gall isafswm o ddau aelod o'r panel wneud penderfyniad cyn belled ag y bo'r Prif Swyddog Cyfraith a Gweinyddiaeth neu'r Prif Gyfreithiwr (Corfforedig) yn bresennol.

4.1.5 Bydd yr Archifydd/Rheolwr Cofnodion yn cydlynu ceisiadau am fynediad i wybodaeth.

4.1.6 Mae gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ei gweithdrefnau ei hun ar gyfer ymateb i geisiadau am ffeiliau, sy'n unol â chyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, os gwneir y ceisiadau hyn yn unol ag adran 7 o'r Ddeddf Gwarchod Data, bydd yr Archifydd/Rheolwr Cofnodion yn cofnodi manylion y cais.

4.2 Yr hawl i atal prosesu gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys at ddibenion marchnata uniongyrchol

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â hawliau unigolion dan adrannau 10, 11 a 12 y ddeddf. Er enghraifft, ni fydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata os yw'r unigolyn y mae'n cyfeirio ato wedi gofyn i'r Cyngor beidio â'i defnyddio at y diben hwn.

4.3 Yr hawl i gywiro, gwrthod, dileu neu ddinistrio gwybodaeth anghywir

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â chyfrifoldebau i ddiwygio unrhyw ddata anghywir sydd ganddo am unigolyn, yn unol ag adran 14 y ddeddf.

5 CWYNION

Bydd Rheolwr Cefnogi Archwiliadau'r Cyngor yn delio â chwynion am y ffordd y mae'r Cyngor yn ymdrin â gwybodaeth bersonol a bydd yn trefnu i ymchwilio i'r mater. Mae ffurflenni cwyno ar gael gan swyddfeydd y Cyngor, trwy'r cynllun cyhoeddiadau neu o wefan y Cyngor. Os yw'r achwynydd yn anfodlon â chanlyniad yr ymchwiliad, gall gwyno'n uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cyflwyno apeliadau yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd Gwybodaeth i'r Tribiwnlys Gwybodaeth.

Manylion cyswllt:

Rheolwr Cefnogi Archwiliadau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Adran Cyfraith a Gweinyddiaeth
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Ffôn: 01978 292257

Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 524510
www.informationcommissioner.gov.uk

Atodiad A

Diffiniadau

Gwybodaeth bersonol neu ddata personol yw gwybodaeth sy'n effeithio ar breifatrwydd unigolion, boed yn eu bywyd personol neu deuluol, busnes neu broffesiwn. Mae'n wybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae enw

unigolyn yn annhebygol o fod yn ddata personol os nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw wybodaeth bersonol arall. Os oes yna wybodaeth arall e.e. cyfeiriad neu rif ffôn mae hyn yn debygol o fod yn wybodaeth bersonol. Mae gwybodaeth am hanes meddygol, cyflog a chyfriflenni banc yn enghreifftiau o wybodaeth bersonol. Gallai gwybodaeth bersonol gynnwys unrhyw fynegiadau barn am yr unigolyn. Ni fydd gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar rywbeth arall e.e. arolwg o eiddo yn wybodaeth bersonol. Nid yw'r ffaith bod unigolion yn cael eu henwi mewn dogfen yn golygu ei bod yn wybodaeth bersonol.

Golyga data personol sensitif wybodaeth am unigolion sy'n perthyn i'w tarddiad ethnig neu hiliol, barn wleidyddol, credau crefyddol, aelodaeth o undebau llafur, iechyd corfforol neu feddwl, bywyd rhywiol a chofnodion troseddol.

Golyga prosesu o ran gwybodaeth neu ddata gael, cofnodi, dal neu ddefnyddio'r wybodaeth. Byddai defnyddio gwybodaeth yn cynnwys ei newid, chwilio amdani, ei darllen neu ei datgelu i eraill neu ei dinistrio.

Golyga system ffeilio berthnasol wybodaeth a drefnir naill ai trwy gyfeirio at unigolion neu drwy gyfeirio at feini prawf am unigolion er mwyn i wybodaeth benodol am unigolion fod ar gael yn rhwydd.